# Afiechydon

JAMILA Www, neis!

Pam fod angen rhwyd?

ALFRED I gadw'n ddiogel. Mae'r afiechyd trofannol, malaria yn cael ei ledaenu gan bryfaid mosgito sy'n cario parasit o'r enw *Plasmodium*. Mae'r parasit yn byw yng nghelloedd coch y gwaed. Mae'r mosgito yn cael gafael ynddo pan mae'n brathu organeb sydd wedi ei heintio. Pan mae'r mosgito'n symud i fwydo ar organeb arall, mae'r parasit yn cael ei basio ymlaen. Mae symptomau'n cynnwys gwres uchel, salwch a dolur rydd. Mae malaria'n gallu bod yn farwol. I amddiffyn dy hun rhag frathiad mosgito, gwisga ddillad sydd â llewys a choesau hir, defnyddia rwyd mosgito a chwistrell gwrth-bryfaid. Allet ti gymryd tabledi gwrth-falaria ond paid â dibynnu ar rhain yn unig.

JAMILA O'r gorau. Falle wnâi osgoi fan 'na.

ALFRED Mae afiechydon ymhobman yn y byd Jamila ac mae 'na sawl ffordd y gelli di eu dal. Er enghraifft, mae HIV sef Human Immunodeficiency Virus yn cael ei basio o berson i berson drwy hylifau corfforol fel gwaed, semen, hylif o'r gwain a llaeth y fron. Mae'n achosi symptomau sy'n debyg i'r ffliw, sef gwres uchel, brech a gwddf llidus.

Mae HIV yn ymosod ar gelloedd gwyn y gwaed. Rhain sy'n amddiffyn dy gorff rhag afiechydon. Mae HIV yn gwanhau dy system imiwnedd - gan dy wneud yn fwy agored I salwch. Os nad wyt ti'n trin HIV, bydd yn arwain at Acquired Immune Deficiency Syndrome, AIDS. Er nad oes gwellhad neu frechiad ar gael i drin AIDS, gall triniaeth gwrthretrofiraol olygu disgwyliad oes cymharol normal i'r dioddefwr.


© Hawlfraint BBC

ALFRED Clefyd cysylltiad rhywiol arall yw chlamydia. Mae symptomau'n cynnwys rhedlif o'r organau cenhedlu, teimlad o losgi adeg wrineiddio, gwres uchel a phoen.

Gellir trin chlamydia'n hawdd gyda thabledi gwrthfiotig. Ond, os nad wyt ti'n ei drin yn ddigon cynnar, gall arwain at broblemau iechyd hirdymor ac anffrwythlondeb. Y ffyrdd mwyaf cyffredin o drosglwyddo HIV a chlamydia yw drwy gael rhyw anniogel. Mae HIV hefyd yn cael ei ledaenu drwy rannu nodwydd tangroenol gyda rhywun sydd â'r afiechyd yn barod. Y ffordd orau i osgoi'r ddau afiechyd yw drwy wisgo condom, osgoi ailddefnyddio nodwyddau tangroenol a gwisgo menig wrth drin clwyfau gwaedlyd.

JAMILA Ymm.

ALFRED Felly nawr dy fod ti'n gwybod mwy am afiechydon a sut i ddiogelu dy hun, cer ati i drefnu dy antur nesaf.

JAMILA Ti'n werth y byd Alfred - trip i'r Amazon amdani!

Nawr te, ble alla i brynu rhwyd mosgito?

 **© Hawlfraint BBC**